OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2003 Rhif 3137 (Cy.301)

LLYWODRAETH LEOL, CYMRU

Gorchymyn Caerdydd (Cymunedau Ystum Taf, yr Eglwys Newydd, Llanisien, Llys-Faen, Trelái a Sain Ffagan) 2003

Wedi'u gwneud - - 27 Tachwedd 2003

Yn dod i rym yn unol ag Erthygl 1(2)

Gan fod Comisiwn Ffiniau Llwyodraeth Leol Cymru wedi cyflwyno i Gynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol ag adrannau 54(1) a 58(1) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972(**1**), adroddiad dyddiedig Tachwedd 2002 ar adolygiad a gyflawnwyd gan Gyngor Dinas a Sir Caerdydd ar y ffiniau rhwng cymunedau: Ystum Taf a'r Eglwys Newydd; Llanisien a Llys-Faen; a Threlái a Sain Ffagan; yn Ninas a Sir Caerdydd ynghyd â chynigion a luniwyd ganddo arnynt;

A chan fod Cynulliad Cenedlaethol Cymru wedi penderfynu rhoi effaith i'r cynigion hynny, heb newidiadau;

A bod mwy na chwe wythnos wedi mynd heibio ers i'r cynigion hynny gael eu gwneud;

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd i'r Ysgrifennydd Gwladol gan adran 58(2) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 ac a freiniwyd yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru i'r graddau y maent yn arferadwy mewn perthynas â Chymru(**2**) yn awr yn gwneud y Gorchymyn canlynol:

Enwi a chychwyn

1.—(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Caerdydd (Cymunedau Ystum Taf, yr Eglwys Newydd, Llanisien, Llys-Faen, Trelái a Sain Ffagan) 2003.

(2) Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 1 Ebrill 2004, a hwnnw yw'r diwrnod penodedig ("appointed day") at ddibenion Rheoliadau 1976, ond at y dibenion a nodir yn Rheoliad 4 o Reoliadau 1976, daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 1 Rhagfyr 2003.

Dehongli

2. Yn y Gorchymyn hwn —

(**1**) 1972 p.70.
(**2**) *Gweler* Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672) erthygl 2 ac Atodlen 1.

ystyr Map A ("*Map A*") yw'r map a gafodd ei baratoi gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru a'i farcio "Map A Gorchymyn Dinas a Sir Caerdydd (Ystum Taf a'r Eglwys Newydd) 2003" ac a adneuwyd yn unol â Rheoliad 5 o Reoliadau 1976;

ystyr Map B ("*Map B*") yw'r map a gafodd ei baratoi gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru a'i farcio "Map B Gorchymyn Dinas a Sir Caerdydd (Llanisien a Llys-Faen) 2003" ac a adneuwyd yn unol â Rheoliad 5 o Reoliadau 1976;

ystyr Map C ("*Map C*") yw'r map a gafodd ei baratoi gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru a'i farcio "Map C Gorchymyn Dinas a Sir Caerdydd (Trelái a Sain Ffagan (1)) 2003" ac a adneuwyd yn unol â Rheoliad 5 o Reoliadau 1976;

ystyr Map Ch ("*Map D*") yw'r map a gafodd ei baratoi gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru a'i farcio "Map Ch Gorchymyn Dinas a Sir Caerdydd (Trelái a Sain Ffagan (2)) 2003" ac a adneuwyd yn unol â Rheoliad 5 o Reoliadau 1976; ac

ystyr "Rheoliadau 1976" ("*the 1976 Regulations*") yw Rheoliadau Newidiadau i Ardaloedd Llywodraeth Leol 1976(**3**).

Newidiadau i Ffiniau Cymunedau

3. Mae'r ffiniau rhwng cymunedau i Ystum Taf a'r Eglwys Newydd; Llanisien a'r Llys-Faen; ac Trelái a Sain Ffagan yn cael eu diwygio yn unol ag erthygl 4.

Ffiniau Cymunedau Newydd

4.—(1) Mae'r ffin rhwng cymundau Ystum Taf a'r Eglwys Newydd i fod fel a ddangosir ar Fap A wedi'i farcio fel "y Ffin Gymunedol Newydd".

(2) Mae'r ffin rhwng cymundau Llanisien a Llys-Faen i fod fel a ddangosir ar Fap B wedi'i farcio fel "y Ffin Gymunedol Newydd".

(3) Mae'r ffin rhwng cymundau Trelái a Sain Ffagan i fod fel a ddangosir ar Fapiau C ac Ch wedi'u marcio fel "y Ffin Gymunedol Newydd".

Cynghorydd Cymuned Ychwanegol

5. Cynyddir y nifer o gynghorwyr cymuned i'w hethol ar gyfer cymuned Sain Ffagan i 9.


Llofnodwyd ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 66(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998(**4**)

Karen Sinclair
Y Trefnydd

27 Tachwedd 2003

(**3**) O.S. 1976/246 (fel y'i diwygiwyd gan amrywiol offerynnau statudol lle nad yw'r diwygiadau yn berthnasol i'r O.S. hwn).
(**4**) 1998 p.38.

Map A Gorchymyn Dinas a Sir Caerdydd (Ystum Taf a'r Eglwys Newydd) 2003



Seiliir y map hwn ar fap Arolwg Ordnans gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru gyda chaniatâd yr Arolwg Ordnans ar ran Rheolwr Llyfrfa Ei Mawrhydi. © Hawlfraint y Goron 2003. Cedwir pob hawl. Byddai ei atgynhyrchu heb ganiatâd yn torri'r hawlfraint a gallai arwain at eich erlyn neu ddwyn achos sifil yn eich erbyn. Rhif trwydded 10017916

CartoGraffeg, Cynulliad Cenedlaethol Cymru